Cyngor Celfyddydau Cymru

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol - ein targedau ar gyfer 2012/13

Tachwedd 2012

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Supported by The National Lottery®
Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, ar dâp sain ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

## Cynllun Cydraddoldeb Strategol - ein targedau ar gyfer 2012/13

Dyma'n targedau allweddol i 2012/13. Rhan o'i gyhoeddi yn Ebrill 2012 oedd ymroi i gynhyrchu a chyhoeddi cynllun gweithredu manylach am bob un o'r targedau hyn erbyn Hydref 2012. Dyma'r camau gweithredu.

Monitrwn gynnydd yn erbyn ein cynllun drwy'r flwyddyn. Ar ddiwedd y flwyddyn cyhoeddwn ein hadroddiad terfynol yn erbyn y cynllun yn rhan o'n hadroddiad blynyddol.

| Amcan | Cam gweithredu |
|---|---|
| 1. Sicrhau y cefnoga'n harian ragor o fathau gwahanol o'r celfyddydau ac yn cyrraedd ystod ehangach o artistiaid. | a) Monitro prosiectau Camau Creadigol a sicrhau parhad yn eu hariannu lle bo angen<br>b) Adolygu a gwerthuso proses ac effaith Camau Creadigol i benderfynu sut i ddatblygu dyfodol y rhaglen<br>c) Monitro defnydd ein harian ar draws ystod cynlluniau'r Loteri a ariennir a nodi camau gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw anghydraddoldebau posibl |
| 2. Gweithio gyda'r sefydliadau a ariannwn i'w helpu i gynnwys cydraddoldeb yn eu gwaith a chynnwys rhagor o bobl | a) Adolygu casgliadau'r arolwg hygyrchedd anabledd i leoliadau ac orielau'r sefydliadau refeniw, sawl person anabl sy'n cysylltu â'r sefydliadau, sawl a ddewisodd fynychu a pha fath o wasanaeth a ddefnyddiant. |
| 3. Cefnogi'r sefydliadau a ariannwn i nodi ac ymgymryd â hyfforddiant | Gweler 2a uchod. Gan ddefnyddio'n canllawiau dogfennau:<br>a) Sicrhau ystyriaeth i hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws y nodweddion gwarchodedig a sut mae'n berthnasol i waith y sefydliadau refeniw.<br>b) Cefnogi'r sefydliadau refeniw i nodi a threfnu hyfforddiant |
| 4. Yn ein cynlluniau ariannu, blaenoriaethu prosiectau sy'n gwneud y celfyddydau yn fwy cyfartal a helpu pobl i ddeall ei gilydd | a) Adnewyddu rhaglen y cynlluniau, yn benodol o ran defnydd gan grwpiau ar yr ymylon. Datblygu argymhellion i ddiwygio'r broses a/neu gyflwyno meysydd ariannu newydd<br>b) Adeiladu camau gweithredu sy'n briodol i'n cynlluniau corfforaethol a gweithredol |
| 5. Rhannu enghreifftiau o brosiectau a wnaeth wir wahaniaeth o ran cydraddoldeb neu helpu pobl i ddeall ei gilydd yn well | a) Dod o hyd i ffyrdd o rannu enghreifftiau o'r llu o'r storïau a'r prosiectau a gawsom |

| | |
|---|---|
| 6. Sicrhau bod ein holl wybodaeth yn hygyrch a dealladwy | a) Cyhoeddwn ein dogfennau allweddol (e.e. cynlluniau, strategaethau a chanllawiau ariannu) yn Hawdd eu Darllen<br>b) Gweithio gydag Anableddau Dysgu Cymru i gynyddu ystod y delweddau o weithgarwch celfyddydol iddynt eu defnyddio<br>c) Cyhoeddwn fersiynau testun plaen o'n dogfennau<br>d) Sicrhawn y gŵyr pob aelod o'r staff y gallwn gynhyrchu copi caled o'n dogfennau ar gais<br>e) Datblygwn gynnwys awdio/gweledol i roi gwybod i bobl sy'n ymweld â'n gwefan pwy ydym a pha beth a wnawn |
| 7. Rhannu gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd yn y celfyddydau a sut y gall pobl ymwneud â hwy | a) Datblygwn Gyfeiriadur y Celfyddydau ar gyfer, yn y lle cyntaf, ein sefydliadau refeniw a rydd lwyfan iddynt rannu'r hyn a wnânt<br>b) Gwell gwefan â rhagor o wybodaeth |
| 8. Annog pobl i drafod â ni ac ymhlith ei gilydd y pethau y gall pawb eu gwneud i gynyddu cydraddoldeb ac amrywiaeth. Dechreuwn drwy wneud yr achos creadigol dros amrywiaeth yn un o ganolbwyntiau ein cynhadledd nesaf | a) Sefydlu'n desg gymorth newydd i ddarparu cyngor a gwybodaeth o safon<br>b) Cymorthfeydd cyngor a gwybodaeth lle gellid trefnu apwyntiad a gweithdai cyngor ledled Cymru<br>c) Sicrhau y cynhwysir ystyriaeth i gydraddoldebau ar agenda Cynhadledd y Cyngor. |
| 9. Datblygu a chyhoeddi canllawiau ymarfer gorau cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y celfyddydau a'u cyflwyno i'r sector | a) Canllawiau drafft erbyn Hydref 2012<br>b) Cyhoeddi canllawiau Mawrth 2013<br>c) Defnyddio adran gydraddoldebau ein gwefan i rannu'n dogfennau polisi ac arweiniad<br>d) Cyfle arddangos i ystod eang o waith ledled y wefan |
| 10. Annog yn rhagweithiol ystod ehangach o bobl i ymuno â'n staff, ein Cyngor a'n hymgynghorwyr | a) Ailystyried, diwygio a gweithredu Ein diwylliant: drysau agored, meddwl agor i ddatblygu cyfleoedd ar gyfer lleoliadau<br>b) Sicrhau y pery'n polisïau cyflogaeth i gynnwys darpariaeth i weithio'n hyblyg gan gynnwys rhan amser a gweithio gartref |
| 11. Hyfforddi ein Cyngor a'n staff | a) Sicrhau yr hyfforddir staff sy'n gyfrifol am ysgrifennu ein dogfennau allweddol mewn Cymraeg/Saesneg clir<br>b) Ystyried ymgymryd â hyfforddiant ymwybyddiaeth fyddar a hyfforddiant cydraddoldeb anabledd cyffredinol |

| | |
|---|---|
| 12. Gwella sut yr aseswn pa effaith a gâi ein polisïau a'r cyfan a wnawn ar gydraddoldeb. Gweithredwn i gynyddu cydraddoldeb seiliedig ar yr hyn a ddysgwn o'n hasesiadau | a) Gorffen adolygiad y broses asesu effaith ar gydraddoldeb<br><br>b) Ystyried sut y monitrwn a gyflawnir y camau gweithredu a nodir gan yr asesiadau<br><br>c) Cynnwys crynodeb o'r camau gweithredu hyn yn ein hadroddiad cydraddoldebau blynyddol |
| 13. Sicrhau yr ystyriwn gydraddoldeb wrth brynu nwyddau a gwasanaethau drwy adolygu'n gweithdrefnau caffael | a) Cynnwys ystyriaeth o sut y monitrwn dystiolaeth cyflenwr o gymhwyso cydraddoldebau wrth ddiwygio ein gweithdrefnau caffael<br><br>b) Ymgymryd ag asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb o'n gweithdrefnau caffael |
| 14. Parhau i weithredu argymhellion ein hadolygiad cyflog cyfartal | Gweler hefyd camau gweithredu amcan 10 uchod |
| 15. Gwella sut y casglwn ddata sy'n berthnasol i bawb y gellid effeithio arno gan anghydraddoldeb. Cwestiynu'r hyn a ddywed y data a'i ddefnyddio i lunio amcanion cydraddoldeb y dyfodol | Gweler amcan 2 uchod<br><br>a) Diwygio ffurflenni monitro cyfle cyfartal i unigolion a sefydliadau<br><br>b) Datblygu proses drydanol am gasglu data o ffurflenni cyfle cyfartal a gyflwynir |
| 16. Parhau i gynnal ac adeiladu perthnasau â sefydliadau ac unigolion eraill a all ein helpu i ddeall barn a safbwynt pobl wahanol yr effeithir arnynt gan anghydraddoldeb | a) Archwilio partneriaethau newydd gydag asiantaethau eraill a chyda'r rhai y gweithiwn gyda hwy'n barod i sicrhau ystyriaeth ddigonol i bob nodwedd warchodedig |